


JOHANN 'RUKELI' TROLLMANN



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Ganwyd Johann 'Rukeli' Trollmann ar 27 Rhagfyr 1907 ger Hannover. Roedd yn focsiwr Sinti Almaenaidd poblogaidd a ddiodefodd wahaniaethu, a gafodd ei wthio i gyrion cymdeithas, ei sterileiddio ac yna'i anfon i wersyll crynhoi lle cafodd ei lofruddio. Yma, mae Rainer Schulze, Athro Hanes Ewropeaidd Modern ym Mhrifysgol Essex yn rhannu ei stori.



Roedd y Natsïaid am gael gwared yn llwyr ar Sipsiwn Roma a Sinti Ewrop: bu farw mwy na 220,000 i gyd, naill ai drwy gael eu lladd neu o ganlyniad i newyn neu afiechydon. Cafodd llawer rhagor eu carcharu, eu defnyddio fel llafur gorfodol neu eu gorfodi i gael eu sterileiddio a chael eu defnyddio ar gyfer arbrofion meddygol. Ddechrau'r 1990au fe wnaeth Ian Hancock, ysgolhaig ac ymgyrchydd Roma, gyflwyno'r term *Porajmos* (sy'n cael ei sillafu fel *Porrajmos* hefyd) ar gyfer erledigaeth y Roma a'r Sinti yn ystod cyfnod y Natsïaid. Mae'r term yn golygu 'difa' neu 'dinistrio' mewn rhai tafodieithoedd o'r iaith Romani, Romanes.

Ganwyd Johann 'Rukeli' Trollmann ar 27 Rhagfyr 1907 ger Hannover yn un o naw o blant mewn teulu Sinti Almaenaidd. Dechreuodd focsio yn wyth oed, a chyn bo hir roedd yn cystadlu gyda chlwb bocsiu Heros-Eintracht yn Hannover. Aeth ymlaen i ennill pedair pencampwriaeth ranbarthol a phencampwriaeth Gogledd yr Almaen fel bocsiwr amatur cyn iddo droi'n 20 oed.

Roedd bocsiu yn boblogaidd tu hwnt yn yr Almaen Weimar, a daeth Rukeli yn enwog nid yn unig am ei fod yn olygus – roedd yn dipyn o eilun ar y pryd – ond hefyd am ei gyflymder, ei ystwythder a'i sgiliau technegol gwych. Roedd yn 'dawnsio' o amgylch y cylch, arddull unigryw ar y pryd, ac mae llawer yn gweld hyn fel dechrau bocsiu modern. Fodd bynnag, ym 1928, gwadwyd lle iddo ar dîm yr Almaen yng Ngemau Olympaidd yr Haf yn Amsterdam oherwydd ei arddull focsio 'an-Almaenaidd'. Er gwaethaf hyn, symudodd Rukeli i Ferlin a dechrau bocsiu'n broffesiynol, gan ennill 29 allan o 52 gornest rhwng mis Hydref 1929 a mis Mai 1933. Ond wrth i'r Natsïaid fynd o nerth i nerth, dechreuodd y cyfryngau asgell dde ei wawdio fwyfwy fel 'y Sipsi yn y cylch'.

Ar 9 Mehefin 1933, wynebodd Rukeli focsiwr o'r enw Adolf Witt am deitl pwysau godrwm yr Almaen - roedd y teitl yn wag ar ôl i'r pencampwr blaenorol, Iddew o'r enw Erich Seelig, ffoi o'r Almaen mewn ofn. Roedd Rukeli'n cario'r dydd nes i gadeirydd Natsïaidd yr awdurdod bocsiu ymyrryd, gan orchymyn y beirniaid i ddyfarnu 'dim penderfyniad' fel na fyddai neb yn ennill. Roedd y dorf mor gynddeiriog am y penderfyniad, bu'n rhaid coronni Rukeli'n bencampwr ar frys, ond dim ond ychydig ddiwrnodau wedyn, cymerodd awdurdodau bocsiu'r Almaen y teitl oddi wrtho oherwydd 'bocsiu gwael'.

Trefnwyd gornest newydd ar gyfer 21 Gorffennaf, a gorchymynnwyd Rukeli i ymladd yn y 'dull Almaenaidd' a 'pheidio â dawnsio fel Sipsi'. Roedd e'n gwybod nad oedd fod i ennill yr ornest



@HMD_UK

hmd.org.uk



/HMD.UK

oherwydd mai Sinti oedd e. Daeth Rukeli i'r cylch gyda blawd gwyn dros ei wyneb a'i gorff, a'i wallt wedi'i liwio'n felyn, yn dychanu'r ddefnydd Ariaidd. Roedd yn brotest ddewr tu hwnt yn erbyn y ffordd y gwahaniaethwyd yn ei erbyn. Arhosodd yn stond wrth i ergydion ei wrthwynebydd, Gustav Eder, lanio arno nes iddo gael ei lorio yn y bumed rownd. Dyma oedd diwedd ei yrfa focsio. Roedd hi'n anodd iddo gael dau ben llinyn ynghyd, a chafodd ei anfon i wersyll llafur Hannover-Ahlen ar ddau achlysur, a diflannodd am gyfnod i osgoi cael ei erlid ymhellach. Ym 1938, i osgoi cael ei anfon i wersyll crynhoi, cytunodd i gael ei sterileiddio oherwydd 'diagnosis' o 'wendid meddwl cynhenid'. Ysgarodd ei wraig, oedd ddim yn Sinti, fel y byddai hi a'i ferch fach, Rita, yn ddiogel. Ar ôl i'r rhyfel ddechrau ym 1939, cafodd ei alw i ymladd ym myddin yr Almaen.

Yn 1942, cafodd ei ryddhau'n ddianrhydedd o'r Wehrmacht ar sail hil, ynghyd â phob Sinti a Roma, a chafodd ei arestio gan y Gestapo yn fuan wedyn, Cafodd ei boenydio'n ddifrifol a'i gludo i wersyll crynhoi Neuengamme ger Hamburg. Roedd pennaeth y gwerysll yn gwybod pwy oedd e ers ei ddyddiau bocsio a chafodd ei orchymyn i hyfforddi dynion SS y gwerysll yn y nos ar ôl gweithio shifftiau 12 awr affwysol. Oherwydd bod ei iechyd yn dirywio, penderfynodd y pwyllgor carcharorion cyfrin ffugio'i farwolaeth, rhoi hunaniaeth ffug iddo a'i drosglwyddo i Wittenberge, un o is-wersylloedd Neuengamme. Ond yma hefyd cafodd ei adnabod fel y cyn focsiwr, ac fe'i gorfodwyd i ymladd Emil Cornelius, *kapo* yr oedd pawb ei ofn. Enillodd Trollmann yr ornest, ond fe wnaeth Cornelius ddial arno'n ffaidd drwy ei guro i farwolaeth â phastwn ym mis Mawrth 1944.



Bu farw brawd Rukeli, Heinrich 'Stabeli', yn Auschwitz, ond llwyddodd gweddill ei deulu agos i oroesi gwerysllloedd llafur a chadw a sterileiddio gorfodol. Ar ôl y rhyfel, nid oedd sôn am yr hyn a ddigwyddodd i Rukeli, ddim hyd yn oed o fewn ei deulu. Cam cyntaf tuag at achub Rukeli o e bargofiant oedd llyfr a gyhoeddwyd ym 1997 am ei fywyd, ond aeth chwe blynedd arall heibio cyn i or-nai Rukeli, Manuel Trollmann, ddechrau hel ei achau. Ym mis Tachwedd 2003, o'r diwedd, fe wnaeth Cymdeithas Focsio'r Almaen gydnabod Rukeli fel enillydd yr ornest bencampwriaeth ym

1933 ac ychwanegu ei enw at eu rhestr o bencampwyr bocsio'r Almaen. Rhoddwyd ei wregys pencampwr i'w berthnasau. Ers 2004, mae llwybr wedi'i enwi ar ei ôl yng nghanol Hannover lle safai cartref teuluol Rukeli a bellach mae tair *Stolpersteine* (maen tramgwydd) yn Hannover, Hamburg a Berlin i gofio amdano.

Yn 2010, crëwyd cofeb dros dro o'r enw '9841' (rhif carchar Rukeli yn Neuengamme) yn Viktoriapark Berlin, yn agos iawn at leoliad gornest bencampwriaeth 1933. Flwyddyn yn ddiweddarach, llwyddodd ymchwilwyr a oedd yn gweithio ar ffilm ddogfen am Rukeli i ddod o hyd i'w ferch, Rita Vowe Trollmann, ym Merlin lle'r oedd hi wedi rhedeg tafarn. Doedd ei mam erioed wedi sôn am Rukeli, a dim ond trwy ei modryb yr oedd hi wedi darganfod pwy oedd ei thad, pan oedd hi'n 15 oed, ar adeg pan oedd agweddau gwrth-Roma yn gyffredin o hyd yn y gymdeithas wedi'r rhyfel. Mae ei thad bellach yn destun balchder mawr iddi ac mae'n weithgar yn yr ymdrechion i sicrhau nad yw'n cael ei anghofio.

I wybod mwy:

- Ysgrifennodd yr Athro Schulze cyfres o naw blog ar gyfer Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer mis Hanes Sipsiwn Roma Teithwyr. Gallwch eu darllen yma: <http://hmd.org.uk/news/gypsy-roma-traveller-history-month-introduction>
- Gallwch ddysgu mwy am sut cafodd y Sinti a'r Roma eu herlid yma: hmd.org.uk/genocides/porrajmos

